Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
MEDI 2009

DYDDIAD	Nos Fercher, 16eg Medi
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU'N BRESENNOL	Meurig Williams (Cadeirydd), Elwyn Jones, Elin Evans, Gwilym V.Thomas, Gwilym L.Williams, Tom Ellis, Neal Williams, Huw Williams, Jason Hunt
HEFYD YN BRESENNOL	Aeron M.Jones, Cynghorydd Gwynedd Bethan Williams, Clerc

1. **Croeso**

2. **Ymddiheuriadau**

3. **Datgan Buddiant**
   HW – cae chwarae
   AMJ – materion cynllunio

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhwyd fod cofnodion mis Gorffennaf yn gywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Dwynfa – adroddodd AMJ fod cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus wedi'i gynnal yn Llanwnda lle roedd bron i gant o bobl yn bresennol. Does dim cais cynllunio wedi dod i law gan y perchennog hyd yma, ac os daw cais, yna mae AMJ yn awgrymu y dylid i alw mewn i'r cyngor llawn. Chwech unigolyn wedi'u penodi i fod yn bwyllgor bach fydd yn cynrychioli'r trigolion lleol mewn unrhyw gyfarfodydd i drafod ymhellach. Mae'r chwech hefyd yn mynd i geisio trefnu cyfarfod efo Mr.Curtis, perchennog Dwynfa i gyfleu eu pryderon. Syniad arall a grybyllwyd oedd chwalu'r adeilad presennol ac adeiladu tai ar y safle.
   b. Cefnfaes – cwynion ynglyn â rhoi cerrig beddi i lawr – cafwyd galwadau ffôn ac un llythyr o gwyn. Adroddod y clerc ei bod wedi egluro'r sefyllfa yswiriant, a bod y rhan fwyaf o bobl yn deall fod y gwaith yma'n gorfod cael ei wneud er mwyn diogelwch pawb sy'n gweithio neu fynychu'r fynwent.
   c. Cyngor Gwynedd – gwahoddiad i gyfarfod rhwng y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned.
   d. Un Llais Cymru – penderfynwyd ail-ymaelodi eto eleni.
   e. Cais am safle bws. Gwneud cais i gael cysgodfannau yn Tanrallt, Rhostryfan ac un arall ger Gwelfor, Rhosgadfan.
   f. Coed mynwent Cefnfaes yn gordyfu. Clerc yn pwyso ar y cwmni i ddod i wneud y gwaith.
   g. Cae Chwarae Rhosgadfan – sefyllfa ddiweddara. Adroddod HW fod y goliau bellach wedi'u prynu, ac fod angen gwirfoddolwyr i fynd i'r cae ddydd Sul nesa i'w gosod – gwirfoddolodd HW, GVT, JH, NW a MW. Nododd HW hefyd fod cyfarfod wedi'i drefnu am 7 o'r gloch yng Nhgae'r Gors ar y 30ain o Fedi i drafod y camau nesaf. Nododd fod y pwyllgor bellach wedi cael ysgrifennydd newydd, ac y byddant

yn mynd ymlaen i geisio am grantiau.

h. Hysbysfwrdd i Saron – clerc wedi holi ymhle y byddai'r trigolion yn dymuno lleoli'r hysbysfwrdd. Penderfynwyd rhoi caniatâd i'r clerc fynd ymlaen i archebu'r hysbysfwrdd. Heb glywed dim yn ôl.

i. GLW – coed yn gordyfu ar bont Caer Moel – clerc wedi gofyn wrth Gyngor Gwynedd ddelio gyda'r mater ar fyrder. AMJ yn mynd i gysylltu efo'r Cyngor.

j. NE – wrth ddod i'r ffordd yn Penceunant o gyfeiriad Tan Dderwen, mae gwrych y cae yn atal gweledegd.

k. TE – arwyddion pobl yn croesi'r ffordd newydd i fyny o Goat Llanwnda. Nododd TE fod damwain wedi digwydd ar y rhan hon o'r ffordd yn ddiweddar, ac mae angen atgoffa'r Asiantaeth Ffyrdd fod gor-yrru yn ffactor ar y ffordd yma, a bod gwir angen arwyddion yn hysbysu gyrrwyr fod cerddwyr yn croesi'r ffordd yma. Nododd AMJ fod bwriad bellach hefyd i osod arwyddion Araf ger Sain yn Llandwrog, a bod yr heddlu yn mesur cyflymder yn Saron yn rheolaidd bellach. Ceisio cael cynllun peilot yn yr ardal i gyfreithloni arwyddion 20myw.

l. TE – Goat – angen torri'r coed yn eu holau i gael gwell gweledegd.

m. HW – eithin ar ochr y ffyrdd yn Rhosgadfan – angen cael rhywun i fyny i weld y safloedd. AMJ wedi cysylltu efo'r Gwasanaeth Prawf ac yn gobeithio eu cael i wneud rhywfaint o waith yn yr ardal, ee clirio safle'r neuadd, Rhosgadfan

n. MW – copi o ebost gan Gyngor Gwynedd ynglyn a sgubo'r ffyrdd. Angen checio fod y tracker yn dangos fod y sgubwr wedi bod yn Rhosgadfan.

o. EE – junction Saron, angen tacluso'r gwair wrth y fainc

p. TE – junction Saron – tybed oes modd i'r Cyngor Sir wneud rhywbeth ynglyn a gweledegd?

q. GVT – parcio yn Gwelfor. Carafan a bagiau tywod wedi'u gadael yno. Clerc i gysylltu â'r Adran Dai.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**
Is-bwyllgor cyllid a gweinyddol – cyfarfod 15.07.09 – 6.30p.m. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cyfrifon am y flwyddyn 2008/09.

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	24,123.81
Cyfri Siec:	269.76
CYFANSWM	**24,393.57**

Taliadau:	
Siôn Owen	600.00
Cyflog/costau clerc mis Gorffennaf ac Awst	403.90
Cyllid y Wlad	88.60
Viking Direct – offer swyddfa	88.67
Incwm: Praesept Awst	9850.00

Cais am nawdd gan Ysgol Syr Hugh Owen – help tuag at gynnal sioe gerdd Nadolig 2009 – penderfynwyd rhoi rhodd o £200 i'r gronfa.
Cais am nawdd i'w ystyried ym mis Chwefror:
Shelter Cymru

9. **Materion Cynllunio**
Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
Ceisiadau:
CO9A/0376/24/LL
Church Hall, Dinas – gwared ar ramp, dymchwel rhan o'r adeilad a'r toiledau, creu toiled a chegin newydd ynghyd â ramp newydd.
CO9A/0287/24/MG
Trem Werydd – newidiadau i'r cais blaenorol.

Eisoes wedi'u caniatau:
Llain o dir ger y Goat – codi dau dy
Ty'n Rhosydd, Rhosgadfan– estyniad
Tir tu cefn i'r Arman – codi 24 o dai deu lawr
Aberalaw, Rhosgadfan – diwygio dyluniad gwreiddiol.
Parc, Glanrhyd – cais i godi estyniad unllawr ynghyd a newid dwy ffenest am ddau ddrws ar flaen yr eiddo.
2 Gerddi Benar, Ffrwd Cae Du – diwygio'r cynllun blaenorol

10 **Gohebiaeth:**

a. Cynllun Rheoli Traethlin Bae Ceredigion ac Ynys Enlli a chyn belled â'r Gogarth – holiadur cychwynnol
b. Cynhadledd Partneriaeth Tai Gwynedd – 11eg Medi
c. Panel Dyfarnu Cymru – Adroddiad Blynyddol
d. Cymdeithas Tai Eryri – Adroddiad Blynyddol
e. Partneriaeth Penllyn
f. Cynllun Datblygu UnedolGwynedd – mabwysiadu'r cynllun
g. Defra – holiadur bioamrywiaeth
h. Cynlluniau Cist Gwynedd 2008
i. Gwasnaeth Tân – ymgynghoriad ynghylch llunio dyfodol y Gwasnaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
j. Wythnos Cymru Daclus 2009 - Medi 21-27
k. BT – llythyr yn cadarnhau eu bod wedi gwneud y gwaith priodol i'r polion
l. Cyngor Gwynedd - Hawliau Tramwy – ymgynghoriad
m. Cyngor Gwynedd – gwarchod trefniadau i ddarparu gwasanaeth
n. Cymdeithas Alzheimer – taith gerdded yn Malltraeth 20.09.09
o. Cynulliad – ymgynghoriad ar y Gorchymynd Cymhwysedd Deddfwriaethol sy'n ymwneud â chyngorau cymunedo a recriwtio a chadw lwfansau cynghorwyr
p. Cyngor Gwynedd – gwahoddiad i Gynhadledd Safonau Cymru yng Nghaerdydd
q. Cyngor Gwynedd – grant Trefi Taclus
r. Partneriaeth Llywodraeth Leol- Adroddiad Blynyddol
s. Swyddfa Archwilio Cymru – gwella trefniadau ariannol
t. Cyngor Gwynedd – Cynllun Tair Blynedd - adolygiad cyntaf
u. Comisiwn Ffiniau –Adroddiat Blynyddol a gwahoddiad i weithdy – 7fed Hydref, Wrecsam
v. Cylchgronnau

11 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. ElJ - Angen atgoffa'r Cyngor Sir fod angen drych newydd ger Ty Nant, Rhostryfan

b. ElJ - Angen torri gwair ar hyd Lein Bryngwyn – a chofio torri y cloddiau. Hefyd angen trwsio'r ffens ger gamfa bren.

c. ElJ - Cwynion fod llwybr wedi'i gau ger Waun Bant oherwydd fod ffens ieir wedi'i osod ar draws.

d. JH - Arwydd Rhostryfan wrth ddod o gyfeiriad Rhosgadfan

e. GVT - Cynllun Uwchgwyrfai – porwyr wedi cael llythyr gan Gyngor Gwynedd yn nodi fod y ffens wedi'i lleoli mewn lle anghywir, ond mae'r porwyr yn dadlau fod wir angen y ffens oherwydd fod y grid gwarthed wedi cael ei leoli mewn lle gwahanol i'r cynllun gwreiddiol. Angen llythyr at y porwyr yn cefnogi eu safbwynt. Efallai roi giatiau yn hytrach na chamfeydd.

f. GLW – gordyfiant gwrychoedd Lôn Cae Garw, Rhos Isaf

g. TE – gofyn pam nad ydy Cyngor Gwynedd yn gweithredu ceisiadau'r Cynghorau Cymuned. Awgrymu y dylai'r cynghorwyr yn hytrach na swyddogion wneud y penderfyniadau. Ddim yn fodlon ar y drefn bresennol.

h. NW – chwyn hyd y ffyrdd yn Bro Cadfan, Gwelfor a Lôn yr ysgol.

i. MW – dwr wyneb yn dod lawr Lôn Bwmp, Rhosgadfan – angen cysylltu efo Cyngor Gwynedd yn eu hatgoffa eu bod yn asiant i'r Goron a bod rhaid iddynt ofalu fod y ffosydd ar y mynydd wedi'i clirio'n rheolaidd.

Llanwnda Community Council News

The chairman welcomed everyone back after the summer break.
Declaration of interest: Huw Williams, playing field; Aeron Jones – planning matters.

Matters arising:

Dwynfa –Aeron Jones reported that an excellent turnout was had during a recent public meeting to discuss the development in Dwynfa. No planning application has been forwarded as yet. Six persons present at the meeting volunteered to be on a small committee who will represent the local residents in future meetings and lobbying. The six will also arrange a meeting with Mr.Curtis, the present owner of Dwynfa.

Cefnfaes – complaints regarding health and safety issues. The clerk received four phone calls and one letter of complaint regarding the laying down of headstones. Clerk explained that regular health and safety checks on the headstones are required in order to fulfill our health, safety and insurance obligations.

An application will be made to Gwynedd Council for three new bus shelters – one near Gwelfor, Rhosgadfan, and two on either side of the road near the Tanrallt Estate.

Rhosgadfan playing field – Huw Williams reported that goalposts had been ordered and a committee will now look to obtain grants to buy play equipment. (following the council meeting, five of the community councillors, namely Huw Williams, Gwilym Vaughan Thomas, Meurig Williams, Jason Hunt and Neal Williams, together with Aeron M.Jones and other members of the village volunteered to erect the goalposts at the playing field on a Sunday morning. I

hope the whole community recognise their hard work and our thanks and appreciation go out to them).
Overgrowth at Bont Caer Moel and Wernlas Ddu. Clerk will again ask Gwynedd Council to follow up our previous request to contact Ffestiniog Railway.
Planning Matters:
No objection to the following:
CO9A/0376/24/LL - Church Hall, Dinas – demolish part of building and build new kitchen and toilets together with new ramp.
CO9A/0287/24/MG
Trem Werydd – adaptations to previous application.
Correspondence:
Cymdeithas Tai Eryri – Annual Report
Partneriaeth Penllyn
Cist Gwynedd Projects 2008
Cylchgronnau